# Cofnodion

## Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Medi 2019

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr D Williams (Cadeirydd), J Cleverly, H Thomas, C Townsend, J Watkins, J Richards and S Marshall

Daniel Cooke (Cynghorydd Craffu), Lisa Davies (Swyddog Llywodraethu), Sarah Morgan (Chief Education Officer), James Harris (Strategic Director - People) and Katy Rees (Assistant Head of Education - Inclusion)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr M Linton

---

1 **Datganiadau o Fuddiant**

Dim

2 **Cofnodion**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar yr 11eg Mehefin a'r 25ain Mehefin 2019 fel rhai gwir a chywir.

3 **Adroddiad Plant sy ' n Derbyn Gofal**

Yn bresennol:
- James Harris – Cyfarwyddwr Strategol – Pobl
- Sally Jenkins Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc drosolwg byr i'r Pwyllgor a thynnodd sylw at y meysydd allweddol i'w hystyried. Dechreuodd Pennaeth y Gwasanaeth trwy esbonio disgwyliad Llywodraeth Cymru i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghasnewydd a'r posibilrwydd o wneud hynny, yn ogystal â'r cynllun roedd y Swyddogion wedi'i roi ar waith i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddogion gadarnhau diffinad Plant sy'n Derbyn Gofal, gan holi a oedd hynny wedi cynnwys plant sy'n byw gyda rhieni a theulu, nid yn unig y rhain yn y system ofal. Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant i'r Pwyllgor gan esbonio y gallai'r term Plant sy'n Derbyn Gofal gynnwys plant gyda gorchymyn gofal, a phlant sy'n byw gyda neiniau a theidiau neu'r rhwydwaith teulu ehangach, yn ogystal â phlant sy'n byw mewn cartrefi gofal maeth a chartrefi preswyl.

- Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor i'r Swyddogion gadarnhau a yw'r cynnig a wnaethpwyd i'r maniffesto gan Brif Weinidog Cymru i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal ledled

Cymru, yn dod â chosb os nad yw'r targed wedi'i gynnig yn cael ei fwrw. Esboniodd y Swyddogion i aelodau'r Pwyllgor na fyddai goblygiadau o ran cyllideb neu staffio o fewn y cynigion wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru; ond mae angen newid diwylliant er mwyn rheoli lefelau mwy o risg a gallai hynny o bosibl greu heriau ym mhob rhan o'r Cyngor.
Rhoddodd y swyddogion sicrwydd i'r aelodau na fyddai'r targedau wedi'u gosod yn dylanwadu ar broses gwneud penderfyniadau y gwasanaeth, pe bai plentyn yn agored i niwed yng nghartref y teulu, byddai angen i'r plentyn gael ei symud.

- Gofynnodd aelod o'r Pwyllgor i'r Swyddogion esbonio rhesymau Llywodraeth Cymru dros ofyn i Awdurdodau Lleol gwblhau'r templedi yn yr adroddiad. Esboniodd y swyddogion fod pryderon ynghylch y ffaith bod nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn sylweddol uwch nag y mae yn Lloegr. Gellir canfod bod y rheswm dros hyn yw bod pobl Cymru'n llai tebygol o gymryd risgiau, gyda goblygiadau y byddai'n fwy tebygol y byddai plant Cymru'n cael eu symud o ofal eu teulu a'u magu o fewn gofal cyhoeddus. Yr ysgogiad arall ar gyfer cwblhau'r templedi oedd lleihau'r pwysau costau ar y gwasanaeth.

- Holodd y aelodau am gost lleoliadau allan o'r sir, gan ofyn am eglurdeb am pam mae hyn yn digwydd. Cadarnhaodd y swyddogion fod lleoliadau allan o'r sir ond yn digwydd pan nad oes darpariaeth gan Gasnewydd ar gyfer plentyn gyda gofalwyr maeth neu mewn cartref preswyl. Cadarnhaodd y swyddogion fod costau wedi'u lleihau ers agor y cartref preswyl newydd ac y byddent yn parhau i ostwng. Hefyd cadarnhawyd bod yr Awdurdod yn recriwtio gofalwyr maeth ar sail barhaol.

- Gofynnodd Aelod i'r Swyddogion esbonio pa risgiau sy'n dderbyniol cyn i blentyn ddechrau derbyn gofal. Ymatebodd y swyddogion fod gan y gymdeithas farn wahanol i'r Awdurdod. Byddai risgiau'n cael eu hasesu ar sail unigol; byddai'r gwasanaeth yn edrych ar amgylchiadau megis oedran y plentyn, gan na fyddai angen yr un lefel o ofal ar blentyn 11 oed ag y byddai ei angen ar faban. Byddem hefyd yn edrych ar ffactorau megis sefyllfa'r teulu a'r effaith y byddai symud yn ei chael ar y plentyn, a fyddai'r canlyniad yn waeth i'r plentyn? Byddem hefyd yn edrych ar ba lefel o gymorth y gallai'r gwasanaeth ei roi ar waith i helpu'r teulu i alluogu'r plentyn i aros yng nghartref y teulu.

- Gofynnodd y Pwyllgor i'r swyddogion egluro un o'r pwyntiau bwled ar y Templed Adrodd Cynllun Disgwyliad Lleiahu oedd wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru. Gofynnodd Aelod i'r swyddog esbonio ystyr lleihau nifer y plant sy'n cael eu symud o rieni ag anabledd dysgu. Cadarnhaodd y swyddogion fod y templed yn cyfeirio at y rhiant â'r anabledd ac nid y plentyn, ac y gallai'r rhiant/rhieni fod yn ymwneud â'r Gwasanaethau Oedolion hefyd.

- Gofynnodd Aelod am eglurder ar yr amcan - 'darparu gwasanaethau effeithiol i gefnogi plant i aros yn ddiogel yn eu teuluoedd' gan ofyn sut oedd hynny'n gweithio. Cadarnhaodd y Swyddogion fod y wybodaeth i'w gweld yn y cynllun gwasanaeth. Roedd y strategaeth gweithiwr maeth ar waith yn cynnig ysgogiadau, cyllid a chymorth a hyfforddiant 24 awr. Roedd ffigurau ynghylch Troseddu Ieuenctid wedi lleihau ac roeddent yn parhau i leihau.

- Gofynnodd Aelod am gynlluniau'r dyfodol, gan ofyn beth oedd yr heriau yn wynebu'r gwasanaeth a pha gynlluniau sydd ar gyfer ymyriadau i'r dyfodol. Cadarnhaodd y swyddogion y byddent yn parhau i edrych ar ofal preswyl, gan gael trafodaethau ar gyfer lleoliad gofal preswyl rhanbarthol. Roedd adborth wedi'i gael ynghylch y cynadledda grŵp teulu, gan dynnu sylw at fanteision y teulu ehangach yn cyfrannu at becyn gofal y plentyn. Byddai'r gwasanaeth yn gweithio ar y cyd â Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn cynnig cymorth ac ymyrraeth yn sgan cyntaf y baban, ar y cam cynnar hwnnw gellir rhoi mesurau ar waith i helpu gyda sgiliau rhianta. Roedd nifer y teuluoedd mawr a phlant sy'n ceisio lloches yn cynyddu. Byddai adnoddau eraill yn

gweithio gyda phlant oedd wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau'n ymwneud â chamddenfyddio sylweddau.

- Gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor am esboniad o'r term 'dip sampling'. Cadarnhaodd y swyddogion fod y term yn ffurf ar ddadansoddi, sy'n golygu dewis ar hap. Mae hyn yn galluogi pob eitem i gael y cyfle cyfartal o gael ei dewis.

- Mynegodd Aelod bryderon ynghylch cost lleoliadau allan o'r sir, gan ofyn pam na fyddai'r gost yn cael ei throsglwyddo i awdurdod arall oedd yn gyfrifol am ofal y plentyn ar y pryd. Esboniodd y swyddogion fod yr Awdurdod yn gyfreithiol gyfrifol am unrhyw blentyn/plant sy'n Derbyn Gofal o Gasnewydd. Os byddai'r teulu ehangach â chyfrifoldeb rhieniol, byddai'r gost yn cael ei dileu.

- Mynegodd Aelod bryderon ynghylch Plant sy'n Derbyn Gofal 11+ oed, gan dynnu sylw at y ffaith bod camfanteisio'n risg, pam byddai'r plentyn hwnnw'n cael ei symud o'r ardal. Ymatebodd y Swyddog gan esbonio, yn ei brofiad ef, y byddai llawer o blant sy'n derbyn gofal yn dod yn ôl i Gasnewydd ar ôl iddynt gael eu symud i ffwrdd, byddai'r ffactor hwn yn eu rhoi mewn mwy o pergyl o gael eu camfanteisio. Roedd risgiau'n llai tebygol pe arhosai y plentyn yng Nghasnewydd gan y byddai lefel benodol o gymorth rhwng eu grŵp cyfeillgarwch cyfredol a'u cyfoedion a byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu a Wardeiniaid lleol yn adnabod y plentyn. Yr amgylchoedd a'r amgychledd sy'n gyfarwydd a byddai hynny'n creu cydbwysedd er mwyn rheoli'r risg.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am fod yn bresennol.

**Casgliadau – Sylwadau i'r Cabinet**

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar Blant sy'n Derbyn Gofal a chytunon nhw i anfon y cofnodion at yr Aelod Cabinet fel crynodeb o'r materion a godwyd.

Roedd y Pwyllgor am wneud y sylwadau canlynol i'r Cabinet a gofynnodd am y wybodaeth ganlynol:

1. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed na fyddai'r pwysau gan Lywodraeth Cymru'n lleihau'r trothwy a'r gwasanaeth a ddarperir i'r bobl ifanc mewn perygl yng Nghasnewydd.

2. Eto cododd y Pwyllgor bryderon am ddefnyddio'r byrfodd 'LAC' ar gyfer 'Looked After Children' a gofynnon nhw fod pob adroddiad yn defnyddio'r term ar ei ffurf llawn yn y dyfodol. Teimlodd y Pwyllgor y gellir labelu pobl ifanc sy'n derbyn gofal gyda'r term 'LAC' ac y byddai hyn yn cael effaith negyddol arnynt.

3. Roedd y Pwyllgor am dynnu sylw at y cydweithredu rhwng y Gwasnaethau Cymdeithasol a'r Bydwragedd fel enghraifft gwych o waith partneriaeth.

4. Mae recriwtio gofalwyr maeth yng Nghasnewydd yn hanfodol i gadw pobl ifanc sy'n Derbyn Gofal yn lleol. Gofynnodd y Pwyllgor a allai'r Swyddogion roi gwybod iddynt a oes unrhyw beth y gallent ei wneud i helpu i gynyddu nifer y gofalwyr maeth.

4 **Adroddiad Lleoliad Anghenion Dysgu Ychwanegol y Tu Allan i ' r Sir**

Yn bresennol:
- James Harris – Cyfarwyddwr Strategol – Pobl

- Sarah Morgan - Prif Swyddog Addysg
- Katy Rees - Pennaeth Cynorthwyol Addysg - Cynhwysiant

Cyflwynodd Pennaeth Cynorthwyol Addysg - Cynhwysiant drosolwg byr i'r Pwyllgor a thynnodd sylw at y meysydd allweddol i'w hystyried.

Gallai fod angen ar blant sy'n derbyn gofal lleoliadau preswyl allan o'r sir y penderfynir arnynt gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn aml roedd gan y disgyblion hynny becynnau addysg a phreswyl ar y cyd. Weithiau roedd angen gwneud y lleoliadau hynny'n gyflym i sicrhau diogelwch y disgybl, ond byddai'r pecyn addysg yn cael ei adolygu ymhen chwe wythnos i sicrhau ei fod yn addas i anghenion y disgybl. Hefyd roedd disgyblion gyda Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig oedd wedi'u dosbarthu'n ddisgyblion Allan o'r Sir gan eu bod yn mynychu Ysgol brif-ffrwd leol mewn awdurdod arall. Mae'r tabl isod yn dangos mathau'r lleoliadai ynghyd â nifer y disgyblion sydd â lleoliadau:

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Dywedodd Aelod o'r Pwyllgor, gan mai tua £30,000 yw cyfartaledd cost lleoli plentyn Allan o'r Sir, a fyddai'r Awdurdod yn gallu cynnig lleoedd i Awdurdodau cyfagos i greu incwm? Gellir wedyn defnyddio'r arian hwn i wneud iawn am gostau anfon pobl ifanc Casnewydd allan o'r sir. Ymatebodd Pennaeth Cynorthwyol Addysg - Cynhwysiant gan esbonio bod yr ALI wedi gwneud llai o leoliadau Allan o'r Sir dros y 3 blynedd ariannol ddiwethaf, a rhagwelwyd gostyngiad pellach ar gyfer 2019-20. Roedd cyfuniad o ffactorau sydd wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn lleoliadau Allan o'r Sir, a fyddai'r cynnwys gweithio gyda Casnewydd Fyw a Catch 22. Roedd cysylltiadau agos wedi'u datblygu rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Addysg i sicrhau cymorth wedi'i gydlynu ar gyfer ein disgyblion mwyaf agored i niwed. Trwy'r Paneli Dyfodol Disgleiriach ac Anghenion Cymhleth misol, trafodwyd disgyblion, yr oedd perygl y gallai eu lleoliadau chwalu, yn fanwl ac ystyriwyd cydatebion i geisio lleihau'r angen am leoliad Allan o'r Sir.

- Gofynnodd Aelod am adborth ar broject Casnewydd Fyw, Catch 22. Ymatebodd y Swyddog gan gadarnhau fod adborth gan y bobl ifanc yn ogystal â Casnewydd Fyw yn gadarnhaol. Roeddent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac yn cael dadansoddiad cyfredol o ddigwyddiadau a throseddau ailadroddus gan staff mewnol i'r project a'r rheiny mewn ysgolion.

- Mynegodd Aelod bryderon ynghylch y term 'LAC' ar gyfer 'Looked After Children', gofynnodd yr Aelod i Swyddogion a phawb dan sylw fyrhau 'Looked AFter Children' i 'LAC' o ganlyniad i'r stigma o blant yn cael eu labelu'n plant 'LAC'. Ymatebodd y Swyddog gan gadarnhau y byddai'r byrfodd yn peidio â chael ei ddefnyddio mewn dogfennau addysg mwyach.

- Mynegodd Aelod ddiddordeb yn y cysylltiadau gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Comisiynu a Chontractau. Ymatebodd y Swyddogion gan esbonio bod cysylltiadau agos wedi'u datblygu rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Addysg i sicrhau cymorth wedi'i gydlynu ar gyfer ein disgyblion mwyaf agored i niwed. Trwy'r Panel Dyfodol Disgleiriach ac Anghenion Cymhleth misol, trafodwyd yn fanwl y disgyblion a oedd mewn perygl y gallai eu lleoliadau chwalu, ac ystyriwyd cydatebion i geisio lleihau'r angen am leoliad Allan o'r Sir. Ers mis Ebrill 2019, roedd Swyddog Anghenion Addysgol Arbennig wedi bod yn gweithio gyda thîm comisiynu a chontractau'r Gwasanaethau Cymdeithasol am ddau ddiwrnod yr wythnos i adolygu'r cytundebau contract gyda darparwyr Allan o'r Sir a'u cydymffurfiaeth. Roedd y broses hon hefyd yn ymwneud â ffioedd ac amodau lleoliadau a oedd yn destun negodi parhaol er mwyn rhoi'r ddarpariaeth fwyaf priodol i'r disgybl yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol. Mae'r cydweithio hwn hefyd wedi arwain at bedwar disgybl yn dychwelyd i

fyw mewn lleoliadau preswyl lleol a chael eu haddysg'n lleol ar gost lai i'r ddau wasanaeth. Roedd panel a phrotocol gwasanaeth ar y cyd wdi'u datblygu i nodi mwy o ddisgyblion a allai ddychwelyd i leoliadau lleol yn y dyfodol.

**Casgliadau – Sylwadau i'r Cabinet**

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar Leoliadau Allan o'r Sir Anghenion Dysgu Ychwanegol a chytunon nhw i anfon y cofnodion at y Cabinet fel crynodeb o'r materion a godwyd.

Roedd y Pwyllgor am wneud y sylwadau canlynol i'r Aelod Cabinet:

1. Gofynnwyd am fwy o wybodaeth am y ffigurau Allan o'r Sir a ddarparwyd gan y Swyddogion. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am bobl ifanc sydd wedi'u lleoli mewn awdurdodau cyfagos a'r rheiny sydd ymhellach i ffwrdd o Gasnewydd.

2. Sylwodd y Pwyllgor ar ba mor gadarnhaol y mae cael tystiolaeth o'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn cydweithio er budd pobl ifanc Casnewydd.

5 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Yn Bresennol:

- Daniel Cooke - Ymgynghorydd Craffu

**a)** Diweddariad ar y Blaenraglen Waith

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu'r Blaenraglen Waith, a dywedodd wrth y Pwyllgor am y pynciau oedd i'w trafod yn y ddau gyfarfod Pwyllgor nesaf:

**5 Tachwedd 2019,** yr eitemau agenda;

- Addysg - Adolygiad Canol Blwyddyn o'r Cynllun Gwasanaeth

**DYDDIAD**, yr eitem agenda;

- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc - Adolygiad Canol Blwyddyn o'r Cynllun Gwasanaeth
- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a'r Gymuned - Adolygiad Canol Blwyddyn o'r Cynllun Gwasanaeth

**b) Materion yn Codi**

Esboniodd y Swyddog fod ymatebion ynghylch camau gweithredu heb eu cyflawni yn cael eu dilyn i fyny.

Daeth y cyfarfod I ben am